Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 1250 (Cy. 201)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyrsiau Addysg Uwch Penodedig) (Cymru) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 89(1) a (2) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("y Ddeddf").

Mae adran 89(3) o'r Ddeddf yn galluogi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i ddarparu adnoddau ariannol i berson mewn cysylltiad â gwariant yr aed iddo, neu wariant yr eir iddo, gan y person neu gan gorff sy'n cydlafurio (fel y'i diffinnir yn adran 89(4) o'r Ddeddf) at ddiben darparu cwrs cymwys yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru neu ddarparu cwrs cymwys i bersonau sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 yn darparu bod y cyrsiau addysg uwch a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn wedi eu pennu at ddibenion adran 89(1) o'r Ddeddf, sy'n golygu eu bod yn gyrsiau cymwys at ddibenion yr adran honno.

Mae paragraff 1 o'r Atodlen yn nodi cyrsiau sy'n dod o fewn paragraff 1(g) neu (h) o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ("Deddf 1988"). Mae cwrs yn dod o fewn paragraff 1(g) o Atodlen 6 os yw'n gwrs i baratoi at arholiad proffesiynol a bod safon yr arholiad hwnnw'n uwch na safon arholiadau safon uwch ar gyfer y Dystysgrif Addysg Gyffredinol ("TAG Safon Uwch") neu'r arholiad ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol neu Ddiploma Cenedlaethol y Cyngor Addysg Busnes a Thechnegwyr ("BTEC"). Mae cwrs yn dod o fewn paragraff 1(h) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 os yw safon y cwrs (pa un a yw'r cwrs yn gwrs i baratoi at arholiad ai peidio) yn uwch na safon cyrsiau sy'n darparu addysg i baratoi at arholiadau TAG Safon Uwch neu'r arholiad ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol neu Ddiploma Cenedlaethol y BTEC.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae paragraff 2 o'r Atodlen yn nodi cyrsiau ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch y BTEC a nodir o fewn fframwaith prentisiaethau a ddyroddir o dan adran 19(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, sef fframwaith Cymreig cydnabyddedig, nad yw cydnabyddiaeth wedi ei thynnu'n ôl ohono o dan adran 19(2) o Ddeddf 2009.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Addysg Drydyddol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 1250 (Cy. 201)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Cyrsiau Addysg Uwch Penodedig) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Tachwedd 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *2 Rhagfyr 2025* |
| *Yn dod i rym* | *25 Rhagfyr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 89(1) a (2) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyrsiau Addysg Uwch Penodedig) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 25 Rhagfyr 2025.

### Pennu cyrsiau addysg uwch

**2.**—(1) Mae'r cyrsiau addysg uwch a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn wedi eu pennu at ddibenion adran 89(1) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "addysg uwch" yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs o unrhyw ddisgrifiad a grybwyllir yn Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**2**).

(**1**) 2022 dsc 1.
(**2**) 1988 p. 40.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Vikki Howells*
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
28 Tachwedd 2025

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

**1.** Cwrs o fewn paragraff 1(g) neu (h) o Atodlen 6 i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (cyrsiau i baratoi at arholiadau proffesiynol ar lefel uwch neu sy'n darparu addysg ar lefel uwch).

**2.**—(1) Cwrs ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch y Cyngor Addysg Busnes a Thechnegwyr a nodir o fewn fframwaith Cymreig cydnabyddedig.

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "fframwaith Cymreig cydnabyddedig" yr ystyr a roddir i "recognised Welsh framework" gan adran 12(4) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**).

(**1**) 2009 p. 22. Mae diwygiadau i adran 12 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mae adran 12 i gael ei diddymu gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Atodlen 4, paragraff 24(1) a (2)(b).